*Anfonwyd trwy e-bost*

Annwyl Rhun ap Iorweth AS, Jane Dodds AS, Darren Millar AS, Ken Skates AS, Anthony Slaughter AS, and Dan Thomas AS,

Llongyfarchiadau ar gael eich ethol i'r Senedd.

Rydyn ni'n ysgrifennu fel cynghrair hirsefydlog o sefydliadau tai a digartrefedd y trydydd sector – Cartrefi i Gymru Gyfan – i dynnu sylw at yr angen am weithredu ar frys i roi diwedd ar yr argyfwng tai sy'n wynebu'r miloedd o bobl ledled Cymru sydd ddim yn gallu cael gafael ar dai diogel, gwirioneddol fforddiadwy.

O ystyried canlyniadau'r etholiad a'i bod yn y bydd llywodraeth leiafrifol yn rhedeg y Senedd, rydym yn cydnabod y bydd trafodaethau a chydweithio trawsbleidiol yn allweddol wrth lunio'r materion a fydd yn cael eu trafod yn ystod y tymor seneddol nesaf.

Fel sefydliadau, roedden ni'n falch o weld bod maniffestos yr etholiad, ar draws y sbectrwm gwleidyddol, yn pwysleisio'r angen i gynyddu cyflenwad tai Cymru. Rydyn ni'n gobeithio y bydd cyflenwi tai gwirioneddol fforddiadwy (yn enwedig cartrefi cymdeithasol) a sicrhau bod pobl ledled Cymru yn cael cymorth i gael cartref nawr yn gonglfaen allweddol ar gyfer cydweithio dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Er bod ymdrechion calonogol wedi cael eu gwneud, gyda chefnogaeth drawsbleidiol, i fynd i'r afael â heriau tai dros y blynyddoedd diwethaf, y gwirionedd yw bod pwysau parhaus costau byw yn golygu ein bod yn wynebu argyfwng tai sydd mor sylweddol ag erioed. Rydyn ni wedi cyrraedd pwynt lle mae dros 10,000 o bobl yn gorfod byw mewn llety dros dro bob mis; lle mae rhentwyr preifat yn ei chael hi'n anodd talu rhenti misol sy'n fwy a mwy anfforddiadwy; a lle mae dros 170,000 o bobl yn sownd ar restrau aros am gartref cymdeithasol.

Bob dydd, mae ein sefydliadau'n gweld effaith a chost hyn i bobl.  Heb le sefydlog i'w alw'n gartref, mae llesiant meddyliol a chorfforol pobl yn dirywio, ac maen nhw'n wynebu anawsterau eithriadol wrth geisio cael swydd neu addysg.

Ac mae costau i'r pwrs cyhoeddus hefyd – mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod pob aelwyd sy'n ddigartref yn costio £20,000 mewn costau uniongyrchol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ar ben hynny, mae Alma Economics yn cyfrifo bod costau anuniongyrchol ychwanegol o £4,700 fesul aelwyd i wasanaethau cyhoeddus.

Hefyd, mae tai o ansawdd gwael yn ychwanegu at y straen ar y GIG yng Nghymru. Mae tai o safon annigonol yn costio tua £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru mewn triniaeth uniongyrchol, ac mae ymchwil yn amcangyfrif bod effaith economaidd ehangach tai o ansawdd gwael yn tua £1 biliwn y flwyddyn.

Ond does dim rhaid i bethau fod fel hyn. Rydyn ni'n gwybod bod map i symud Cymru allan o'r argyfwng tai hwn, os yw pob plaid wleidyddol yng Nghymru yn ymrwymo i wneud cartrefi a sefydlogrwydd tai yn flaenoriaeth.

Fel cynghrair, rydyn ni wedi nodi tri maes blaenoriaeth i weithredu arnynt ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru yn ein maniffesto ar y cyd: *Cartrefi i Gymru Gyfan: Maniffesto i roi terfyn ar yr argyfwng tai i bawb yng Nghymru*. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u gwreiddio yn yr ymchwil a gynhyrchwyd gan ein haelod-sefydliadau a phrofiadau uniongyrchol pobl y mae digartrefedd ac ansefydlogrwydd tai yn effeithio arnynt, yn ogystal â staff rheng flaen. Rydyn ni'n gobeithio y byddant yn llywio eich sgyrsiau â chyd-weithwyr trawsbleidiol ar yr adeg hollbwysig hon.

I roi diwedd ar yr argyfwng tai yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu'r canlynol:

**1. Darparu'r cartrefi cymdeithasol angenrheidiol yn gyflym, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf.**

**2. Ymgorffori atebion cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn y gwaith o weithredu Deddf Digartrefedd a Dyraniadau Tai Cymdeithasol (Cymru) yn effeithiol yn ogystal â'n gwasanaethau tai a digartrefedd.**

**3. Gosod gweledigaeth a strategaeth hirdymor fel bod cartref addas, diogel a gwirioneddol fforddiadwy yn hawl ac yn realiti i bawb yng Nghymru.**

Mae'r dystiolaeth yn glir: mae ein cartrefi'n effeithio ar bob rhan o'n bywydau. Maen nhw'n effeithio ar ein hiechyd, ein llesiant, a'n mynediad at gyfleoedd fel addysg a chyflogaeth. Yn y pen draw, mae buddsoddi mewn cartrefi yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl, ar draws amrywiaeth o feysydd, ac mae hyn yn ei dro yn darparu arbedion ac effeithlonrwydd i gyrff yn y sector cyhoeddus.

Mae Cartrefi i Gymru Gyfan mewn sefyllfa dda i gefnogi uchelgeisiau i sicrhau bod gan Gymru'r cartrefi sydd eu hangen arnom i amddiffyn pobl rhag digartrefedd, byw mewn tai anaddas sydd ddim yn bodloni eu hanghenion, ac ansefydlogrwydd o ran tai. Rydyn ni'n gobeithio parhau i weithio'n agos gyda chi gyd, eich llefarwyr ar dai a holl Aelodau'r Senedd dros y blynyddoedd nesaf.

Homes for all Cymru
Cartrefi i Gymru Gyfan

Drwy weithio gyda'n gilydd, fel sector a gyda phob plaid wleidyddol, gallwn sicrhau bod gan bawb le sefydlog i'w alw'n gartref.

Yn gywir,

Age Cymru – Let's change how we age
Care & Repair – Gofal a Thrwsio
Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru
Chartered Institute of Housing Cymru
Cyngor ar Bopeth | Citizens Advice
Crisis – Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd. Together we will end homelessness
Cwmpas
Cymorth Cymru – connect • strengthen • influence
End Youth Homelessness Cymru
EYST Wales – Ethnic Minorities and Youth Support Team Wales | Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru
Housing Justice Cymru
Llamau – Imagine a World Without Homelessness
The Salvation Army
Shelter Cymru
Tai Pawb – promoting equality in housing – hybu cydraddoldeb ym maes tai
The Wallich – atal digartrefedd • preventing homelessness
TPAS Cymru
Welsh Refugee Council – Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cymorth i Ferched Cymru – Welsh Women's Aid